YOUTH OFFENDING TEAM Inspection

Datganiad i'r Wasg

Ffôn: Ymholiadau'r cyfryngau: 020 7210 8643
Arolygiaeth Prawf EM • Second Floor • Ashley House • 2 Monck Street • London • SW1P 2BQ
Ffôn: 020 7035 2202 • Ffacs: 020 7035 2237
E-bost: HMIP.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk • http://inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation/

Arolygiad annibynnol o waith prawf a throseddau ieuenctid

DAN EMBARGO NES 27/02/08
CYHOEDDI ADRODDIAD AROLYGU GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID POWYS

Heddiw, cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf o bedwerydd cam yr arolygiadau o Dimau Troseddau Ieuenctid (TTI) yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliodd tîm arolygu amlasiantaethol yr arolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys.

Dywedodd Andrew Bridges, Prif Arolygydd Gwasanaeth Prawf EM:

"Amlygwyd nifer o ddiffygion yn sgil yr arolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys, a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mehefin 2006 o dan Gam III yn rhaglen adolygu'r TTI. Roedd camau'n cael eu cymryd o hyd yr adeg honno i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ond roedd angen cynhyrchu canlyniadau pendant o hyd. Felly, cynhaliom ailarolygiad ym mis Medi 2007, yn canolbwyntio ar yr argymhellion a gafwyd yn yr adroddiad gwreiddiol.

Roeddem yn falch o weld bod y Bwrdd Rheoli wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad gwreiddiol. Roedd Cylch Gorchwyl newydd wedi cael ei lofnodi, roedd yr aelodaeth wedi cael ei hadolygu a staff newydd wedi'u penodi, gan gynnwys dau reolwr gweithredol newydd. Roedd gan y Bwrdd Rheoli ddealltwriaeth well o'i rôl a'i gyfrifoldebau a gwnaeth y tîm staff argraff ar yr arolygwyr gyda'u brwdfrydedd, eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymroddiad cyffredinol. Gwelwyd tystiolaeth o welliant yn ansawdd yr arferion, ond roedd gwaith i'w wneud o hyd mewn rhai meysydd cyflwyno gwasanaeth allweddol.

Er mai megis dechrau oedd y broses o newid a gwella rheoli ac arfer, rydym yn fwy hyderus fod gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y potensial o ran arweinyddiaeth ac adnodd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwasanaeth da yn y dyfodol."

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Rheoli

- Roedd Bwrdd Rheoli wedi'i ailffurfio ac wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol.

- Roedd tystiolaeth i ddangos bod y GTI yn cael ei gysylltu'n agosach yn yr awdurdod a'i fod mewn sefyllfa well gyda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Roedd uwch staff allweddol newydd wedi cael eu penodi mewn gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac yn creu effaith gadarnhaol.
- Roedd yn amlwg bod anghydbwysedd o adnoddau rhwng swyddfeydd y gogledd a swyddfeydd y de a bod angen mynd i'r afael â rhai diffygion o ran arfer.

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd gan y GTI berthynas gadarnhaol â staff llys ac roeddent yn mynychu Grwpiau Defnyddwyr y Llys a hyfforddiant panel ynadon.
- Nododd yr arolygiad fod cynnydd da o ran paratoi adroddiadau cyn dedfrydu.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Roedd y GTI wedi ymateb yn gadarnhaol i arolygiad beirniadol. Trefnwyd bod adnoddau ar gael a gwelwyd ymroddiad y partneriaid yn y gwaith oedd yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.
- Er bod trefniadau wedi'u gwneud i wella rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner, roedd diffygion yn parhau i fod yn y staffio a oedd yn llesteirio cynnydd.
- Roedd y datblygiadau gydag addysg yn addawol, ond adeg yr arolygiad nid oeddent wedi cael effaith arwyddocaol eto.
- Roedd Gyrfa Cymru yn dechrau cael effaith, gyda'r GTI yn cyflwyno proses gyfeirio awtomatig i Gyrfa Cymru, a gwybodaeth yn cael ei chyfnewid gyda chaniatâd i fonitro cynnydd.
- Ers yr arolygiad blaenorol, roedd y GTI wedi penodi tîm Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid. Canfuom gysylltiadau da ag asiantaethau partner ar gyfer cyfeiriadau, a gwasanaethau priodol ar gyfer pobl ifanc, a phrosesau trylwyr ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr i gynorthwyo â gwaith y Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun Gorchmynion Carchariad a Hyfforddi (GCH)

- Roedd staff y GTI yn awr yn gweithio yn fwy effeithiol gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi'u dedfrydu i orchmynion carchariad a hyfforddi.
- Yng ngwaith y GTI sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, roedd lle i wella ymhellach.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Ni chafodd hwn ei gynnwys yn yr ailarolygiad o GTI Powys oherwydd cyflawnwyd safon dderbyniol yn ystod yr arolygiad gwreiddiol.

NODIADAU I OLYGYDDION

1. Cynhaliwyd yr arolygiad o GTI Powys ym mis Medi 2007.
2. Mae gan Bowys boblogaeth o 126,354, yn ôl mesur Cyfrifiad 2001. O'r boblogaeth hon, roedd 22% rhwng 0-17 mlwydd oed adeg y cyfrifiad. Roedd y ffigwr hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 22.8%.
3. Mae wyth Arolygiaeth yn cynnal Arolygiadau Timau Troseddau Ieuenctid. Y rhain yw Estyn (Arolygiaeth EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Y Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, Y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.
4. Dechreuodd y rhaglen arolygu TTIau ym Mehefin 2003. Mae pob un o'r 157 TTI yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harolygu dros gylch pump i chwe blynedd.
5. Cynhelir yr arolygiad yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i arolygu cymesur a chydgysylltiedig mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan ganlyniadau'r Asesiad Cynhwysfawr o Berfformiad a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly, datblygwyd rhaglen sydd:
   - yn gymesur â risg ac sy'n arolygu dim ond y meysydd gwaith hynny lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arfer da
   - yn ategu, ac sy'n cael ei chydlynu â rhaglenni arolygu eraill, yn bennaf y Cyd-Adolygiadau Ardal o wasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) a'r Asesiad Corfforaethol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio)
   - yn cymryd datblygiad diweddar GTIau fel sefydliadau i ystyriaeth.
6. Datblygwyd safonau a meini prawf cynhwysfawr i gwmpasu pedwerydd cam yr arolygiad, gan ganolbwyntio ar:
   - waith yn y llysoedd
   - plant a phobl ifanc yn y gymuned (y rheiny sy'n wynebu risg o droseddu a'r rheiny sydd wedi troseddu)
   - plant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau yn y carchar
   - dioddefwyr a chyfiawnder adferol
   - rheolaeth ar y TTI a threfniadau partneriaeth.